Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020 (Rheoliadau 2020)** |
| **DYDDIAD** | **22 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020 (Rheoliadau 2020)**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio nifer o offerynnau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE i sicrhau y byddant yn parhau'n addas i'r diben ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ac yn gwneud newidiadau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE i ychydig ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE a ddaw'n gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, neu'n ei dirymu. Mae'n cynnwys hefyd rai diwygiadau technegol i offerynnau Ymadael â'r UE sydd eu hangen o ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon.

<u>Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Reoliadau 2020</u>

- Penderfyniad 2000/532/EC y Comisiwn sy'n disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraff yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb 75/442/EEC y Cyngor ar wastraff a Phenderfyniad 94/904/EC y Cyngor sy'n sefydlu rhestr o wastraff peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb 91/689/EEC y Cyngor ar wastraff peryglus, a
- Phenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/248 sy'n gosod canllawiau technegol ar gyfer cynnal archwiliadau yn unol ag Erthygl 17 o Gyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor.

<u>Is-ddeddfwriaeth</u>

- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005

- Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc) (Ymadael q'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Deddfwriaeth Sylfaenol a ddiwygir

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae Rheoliadau 2020 yn darparu bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, ond dim ond â chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn yr OS hwn y potensial i sbarduno'r gofynion cydsynio yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac y gallent felly fod yn gyfyngiad ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym wrthi'n trafod â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Bydd Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn parhau'n addas i'r diben. Er enghraifft, maent yn diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE fel eu bod yn cyfeirio at Gyfarwyddebau a Rheoliadau gwastraff ac adnoddau fel y'u diwygiwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE. Maent yn gwneud newidiadau hefyd sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE i ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE a ddaw'n gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, neu'n ei dirymu. Arferir bellach pwerau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag Erthygl 7(1) y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ôl y gofyn.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau technegol y gellir eu carfanu fel a ganlyn:

a. Trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag erthygl 7(1) y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, sy'n caniatáu'r Comisiwn Ewropeaidd i sefydlu ac adolygu rhestr wastraff, yn unol ag Erthyglau 7(2) a (3) y

Gyfarwyddeb honno. Defnyddiodd y Comisiwn y pŵer hwn i wneud Penderfyniad 2000/532 sy'n pennu rhestr o fathau o wastraff a'u codau (codau gwastraff yr UE). Mae'r pŵer hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig. Bydd Rheoliadau 2020 yn caniatáu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig i sefydlu rhestr o wastraff neu i newid rhestr o wastraff (Penderfyniad 2000/532) pan ddaw'n gyfraith y DU (cyfraith yr UE a ddargedwir) wrth i'r DU ymadael â'r UE, yn unol â darpariaethau Erthygl 7. Rhaid ymgynghori cyn newid y rhestr wastraff. Bydd angen ymgynghori hefyd â'r cymdeithasau masnach a chynhyrchwyr gwastraff perthnasol cyn defnyddio'r pŵer hwn.

b. Mewnosod darpariaethau o fewn deddfwriaeth fel bod Cyfarwyddebau'r UE yn cael eu darllen gyda newidiadau, os nad yw'r newidiadau bellach yn gweithio am fod y Cyfarwyddebau wedi'u diwygio. Hepgor neu symleiddio newidiadau i Gyfarwyddebau sy'n cael eu gwneud gan OSau Ymadael â'r UE am eu bod o edrych arnynt, yn ymddangos yn ddiangen neu'n ddiangen o gymhleth.

c. Diwygio croes-gyfeiriadau y mae OSau Ymadael â'r UE yn eu mewnosod o fewn deddfwriaeth, lle nad yw'r croes-gyfeiriadau hynny bellach yn gyfredol oherwydd newidiadau deddfwriaethol diweddar. Gan amlaf, mae'r offeryn yn diweddaru OSau Ymadael â'r UE fel eu bod yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar wastraff ac adnoddau, fel y'u diwygiwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE.

d. Gwneud newidiadau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE i ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE a ddaw'n gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, neu'n eu dirymu. Mae hyn yn ymwneud â deddfwriaeth yr UE sydd wedi'i mabwysiadu gan yr UE ers i'r OSau presennol sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE gael eu gwneud.

e. Diwygio cyfeiriadau at 'ddiwrnod ymadael' mewn OSau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE. Nid oes angen diwygio'r darpariaethau cychwyn mewn OSau Ymadael â'r UE gan fod y Ddeddf Cytundeb Ymadael yn cynnwys darpariaeth gyffredinol bod OSau a oedd i ddod i rym ar y diwrnod ymadael yn dod i rym yn lle hynny ar ddiwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth gyffredinol yn berthnasol i gyfeiriadau eraill at y diwrnod ymadael sydd wedi'u mewnosod o fewn deddfwriaeth gan OSau Ymadael â'r UE, ac mae angen diwygio'r cyfeiriadau hyn bob yn un iddynt gyfeirio yn hytrach at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

f. Gwneud rhai diwygiadau technegol i OSau Ymadael â'r UE sydd eu hangen o ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon ac y gellir eu gwneud o dan a.8(1) Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (gellir gwneud rhai diwygiadau o dan 8C. Er enghraifft: mae OSau Ymadael â'r UE wedi mewnosod diffiniadau o dermau fel "appropriate authority" o fewn deddfwriaeth y DU gyfan, sy'n cynnwys awdurdod Gogledd Iwerddon. O ran deddfwriaeth Atodlen Protocol Gogledd Iwerddon, ni fydd diwygiadau a wneir gan OSau Ymadael â'r UE bellach yn gymwys i Ogledd Iwerddon, felly mae angen dileu'r cyfeiriadau at Ogledd Iwerddon. Mae OSau Ymadael â'r UE wedi diwygio cyfeiriadau cyffredinol at "EU legislation" er mwyn cyfeirio yn lle hynny at "retained EU law". Mae angen diwygio'r cyfeiriadau hyn ymhellach mewn ambell le er mwyn cynnwys cyfeiriad

at ddeddfwriaeth Atodlen Protocol Gogledd Iwerddon oherwydd, o safbwynt Gogledd Iwerddon, bydd deddfwriaeth Atodlen Protocol Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol gymwys yn sgil y Cytundeb Ymadael ac a. 7A Deddf yr UE (Ymadael) ac ni fydd yn gyson â'r diffiniad o'r hyn yw cyfraith yr UE a ddargedwir.

g. Cafodd cyfeiriadau at erthyglau 5 a 6 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff eu mewnosod gan OSau Ymadael â'r UE blaenorol (h.y. Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol a Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE) a Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 (ar gyfer OSau/rheoliadau domestig) sy'n dweud y bydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn gymwys gyda newidiadau. Mae Rheoliadau 2020 yn mewnosod diwygiadau a newidiwyd yn Erthyglau 5 a 6 i adlewyrchu geiriad diweddaraf Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008 (Cyfarwyddeb 2008/98(EC)), a gafodd ei diwygio ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n esbonio effeithiau'r diwygiadau, ar gael yma: https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/pBNWzAvN/SI-2020/

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU i wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad ag ac ar ran Cymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi.  Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 30.A.